## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**16 Mai 2018**
**Ystafell Friffio'r Cyfryngau yn y Senedd**

| YN BRESENNOL: | |
|---|---|
| | |
| **Bethan Sayed AC (Cadeirydd)** | Gorllewin De Cymru / Plaid Cymru |
| **Beth Mahoney (Ysgrifennydd)** | Gofal |
| **Ewan Hilton** | Gofal |
| **Gemma Johns** | Prifysgol Abertawe |
| **Jo Whitfield** | Beat |
| **Hazel Orchard** | |
| **Donna Mason** | Mental Health Matters Wales |
| **Lee Waters AC** | Llanelli / Llafur Cymru |
| **Russell George AC** | Sir Drefaldwyn / Ceidwadwyr Cymreig |
| **Kendra Tanner** | Annibynnol |
| **Dr. Natalie Chetwynd** | Clinig Elizabeth Williams |
| **Misbah Gladwyn-Khan** | Seicolegydd Clinigol dan Hyfforddiant |
| **Carole Phillips** | |
| **Carl Shortland** | Prifysgol Abertawe |
| **Zoe John** | Llysgennad Beat |
| **Chloe Pearce** | Llysgennad Beat |
| **Ollie John** | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| **Dr. Ahmed Darwish** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| **Gerrard McCullagh** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |

| Croeso ac ymddiheuriadau | Camau gweithredu |
|---|---|
| Croesawodd Bethan Sayed AC y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.<br><br>**CAFWYD:** Ymddiheuriadau gan aelodau absennol<br>• Jacinta Tan<br>• Annette McClean | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • Simon Thomas AC<br>• Llinos Keren<br>• Emma-Jayne Hagerty<br>• Menna Jones<br>• Dr Debbie Woodward<br>• Kim Palmer<br>• Manon Lewis | |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | **Camau gweithredu** |
| **CYMERADWYWYD**<br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf. | **BM** i'w hanfon at y Swyddfa Gyflwyno |
| **Adolygu'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta** | **Camau gweithredu** |
| Crynodeb/Disgrifiad o'r Gweithdai Adolygu Gwasanaeth:<br>Comisiynwyd yr adolygiad gan Vaughan Gething, ac mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi bod yn galw am adolygiad ers blynyddoedd. Cynhelir gweithdai ledled Cymru, yn Wrecsam, Caerdydd, Caerfyrddin a Bangor, ac anogir defnyddwyr a gofalwyr i gwblhau arolwg ar-lein hefyd, i gasglu adborth am wasanaethau trin anhwylderau bwyta ac i helpu i lywio eu dyfodol.<br>Byddwn yn casglu adborth ac yn rhoi syniad ymarferol o sut y gall eu hawgrymiadau weithio ar waith. Yna, byddwn yn mynd yn ôl i ofyn i bobl am eu barn nhw ar ein hawgrymiadau.<br>Rydym yn cwrdd â Vaughan Gething ym mis Gorffennaf i rannu ein canfyddiadau a disgwylir adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Tachwedd.<br><br>Pan gynhaliwyd y cyfarfod roedd yr adolygiad yn mynd rhagddo, ac mae rhai o'r materion allweddol a gafodd eu bwydo'n ôl hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol:<br>Yr angen i adnabod ac i atal anhwylderau bwyta mewn ysgolion.<br>Mae gwasanaethau trin anhwylderau bwyta yn dameidiog, gyda 7 gwahanol wasanaeth ledled Cymru. Awgrymwyd y dylid cael un gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan.<br>Gwelir anghytgord gydag, er enghraifft, y gwasanaethau gordewdra; rhaid cysylltu'r rhain yn well.<br>Byddai hefyd yn wych gallu cael gafael ar arbenigwyr yn gyflym; efallai y bydd angen arian pontio ar gyfer hyn.<br>Byddai'n ddefnyddiol bwydo i mewn gyda chanllawiau eraill, fel canllawiau NICE a CAMHS. | |

| | |
|---|---|
| Gofynnwyd pa mor feintiol/ansoddol yw'r dadansoddiad a sut mae'r data presennol yn cael eu defnyddio i gasglu dealltwriaeth o ran cwmpas yr adolygiad. Mae'n bwysig bod hygrededd i'r adolygiad, gyda mewnbwn nifer o bobl. Bydd Jacinta, nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn, yn bwydo gwybodaeth yn ôl i'r grŵp o ran eglurder cwmpas a pha ddata sy'n cael eu defnyddio i ddeall y bwlch. | JT i adrodd gwybodaeth yn ôl i EH er mwyn ei chylchredeg |
| Codwyd materion ynglŷn â pha mor dda mae'r adolygiad wedi cael ei hysbysebu gan rai o'r bobl a oedd yn bresennol. Mae'r adolygiad wedi cael ei hysbysebu'n eang i'r holl weithwyr proffesiynol ym maes anhwylderau bwyta a thu hwnt. Bydd Ewan yn mynd ar drywydd y mater hwn. | EH i fynd ar drywydd hyn |
| Yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol, bydd gennym ganfyddiadau cychwynnol i'n helpu i benderfynu sut yr hoffem symud ymlaen fel grŵp ynghyd â beth yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf. | EH i gynnwys hyn ar agenda y cyfarfod nesaf |
| Pwyntiau eraill a godwyd:<br><br>• Mae'n bwysig bod gan bobl ddealltwriaeth well o waith atal a'r rhesymau pam y gall anhwylderau bwyta godi, er enghraifft oherwydd y cyfryngau cymdeithasol neu fwlio. Mae systemau gwahanol iawn ar gyfer plant ac oedolion. Byddai'n ddefnyddiol edrych ar fodelau o driniaeth y tu hwnt i Gymru. | Gemma Johns i ychwanegu at yr adborth ar yr Adolygiad Gwasanaeth. |
| • Mae'n ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol meddygol ddeall nad yw hyd y cyfnod gofal o reidrwydd yn ddarn defnyddiol o ddata ac y gall anhwylderau bwyta fod yn gyflyrau gydol oes. Mae cyflwr meddwl, nawr a thros gyfnod o amser, yn bwysig iawn. Weithiau mae'n ymddangos mai ar bwysau'r corff yn unig y mae'r ffocws. Rwyf yn teimlo, efallai, nad yw 'cyfradd llwyddiant' yn rhywbeth y gallwn siarad amdani mewn achosion difrifol o anorecsia. | |
| • Faint o gefnogaeth sydd ar gael i bobl wrth iddynt wella? Beth sy'n arwain at fywyd gwell wrth symud ymlaen? Mae pobl yn teimlo eu bod wedi gorffen triniaeth ar ôl ennill pwysau, ond yn seicolegol nid oes gwelliant wedi bod. Mae'n hanfodol bod gennych dîm o'ch cwmpas ar ôl eich triniaeth. | |
| • Mae diffyg cysylltiad rhwng y canllawiau a'r ysgolion; nid yw'r holl gyngor yn gallu gweithio o fewn ysgol, mewn gwirionedd. Awgrymwyd ein bod yn tynnu sylw Kirsty Williams AC at hyn, a'i godi gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl, i sicrhau cydweithrediad. | BS i godi hyn gyda Kirsty Williams AC, ac EH i'w godi gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Iechyd Meddwl |
| **Adolygiad o'r Materion a'r Blaenoriaethau Allweddol a'r Cylch Gorchwyl** | |
| Nid yw'r dogfennau Materion a Blaenoriaethau Allweddol a'r Cylch Gorchwyl wedi'u diweddaru ers 2015, felly awgrymwyd y gallai'r cyfarfod hwn fod yn gyfle i drafod ai dyma'r amser i'w diweddaru.<br><br>Cytunwyd wedyn y byddwn yn gwybod llawer mwy am sut yr hoffem symud ymlaen ar ôl gweld canlyniadau'r Adolygiad Gwasanaeth, a bydd gennym fwy o wybodaeth amdano erbyn y cyfarfod nesaf. Felly, byddwn yn ychwanegu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r Adolygiad Gwasanaeth er mwyn helpu i lunio sut rydym yn bwriadu symud ymlaen, ynghyd â diweddaru'r dogfennau, at agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>Pwyntiau eraill a godwyd:<br><br>Materion a Blaenoriaethau Allweddol:<br>Byddai'n dda ychwanegu teuluoedd a'r rôl y gallant ei chwarae (mae hyn hefyd yn debygol o godi o adborth yr Adolygiad Gwasanaeth)<br><br>Cylch gorchwyl:<br>Rhestrir cyn-Aelodau Cynulliad fel aelodau; bydd angen eu dileu a byddwn yn cysylltu â llywyddion i weld pwy sydd â diddordeb mewn cael eu hychwanegu. Cytunodd Lee Waters AC (yn bresennol yn y cyfarfod) y gellir ei ychwanegu fel aelod.<br><br>Dylid ychwanegu pwynt at y datganiad cenhadaeth yn dweud bod y grŵp yn bwriadu gwella bywydau pobl.<br><br>Awgrymwyd hefyd ein bod yn ychwanegu pwynt am waith atal, er enghraifft seiber-fwlio, cyffuriau newydd?<br><br>Mwy o gyswllt gyda'r cyhoedd - er enghraifft, cynllunio gweithgareddau cyfathrebu o gwmpas Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta, trefnu digwyddiad yn y Senedd, adrodd yn ôl ar ymchwil Mind the Gap pan fydd ar gael.<br><br>Os hoffai unrhyw un gael gwestai i ddod i siarad yn y cyfarfodydd, rhowch wybod inni. Awgrymwyd y gellid gwahodd Kirsty Williams i siarad am yr hyn sy'n digwydd ym maes addysg. | EH i ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf<br><br>BS i wirio a chadarnhau newidiadau<br><br>EH i wneud y newidiadau a awgrymwyd i'r papurau cyn y cyfarfod nesaf er mwyn eu cadarnhau gyda'r grŵp |
| **Unrhyw fater arall** | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Gall bodolaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta olygu nad yw materion o ran anhwylderau bwyta yn ffocws i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl. | BS/EH i ysgrifennu at KW am dryloywder a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl |
| Mae gan lawer o Aelodau Cynulliad ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ond ni allant fynychu'r cyfarfodydd. Byddai'n dda anfon e-bost byr gyda 3-4 pwynt yn dilyn y cyfarfodydd i roi'r newyddion diweddaraf iddynt a chynnwys gwybodaeth fel manylion cyswllt Jacinta, y grŵp Facebook ac, os yw'n berthnasol, darparu testun ar gyfer negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol y gallant eu copïo a'u gludo'n hawdd a'u hyrwyddo ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. | BM i ysgrifennu crynodeb gyda 3-4 o bwyntiau ynghyd â manylion cyswllt/cyfathrebu i'w hanfon at Aelodau Cynulliad |
| Y berthynas rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anhwylderau bwyta. Siaradodd un defnyddiwr gwasanaeth am ei phrofiadau gyda gwasanaethau anhwylderau bwyta a sut na chafodd wybod am y cynllun gofal tan yn ddiweddar. Mae cynlluniau gofal i fod i gael eu hysgrifennu gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, ond dywedodd nifer o bobl yn y grŵp eu bod naill ai ddim yn ymwybodol o'r cynllun gofal tan yn hwyrach, neu fe'u hysgrifennwyd gan bobl eraill ar eu rhan. Mae angen gwella cyfathrebu rhwng timau trin anhwylderau bwyta a'r timau iechyd meddwl. Gwnaed pwynt arall hefyd fod anhwylderau bwyta eraill yn bodoli yn ogystal ag anorecsia - mae angen addysg a gwybodaeth dda ar blant am bob math o anhwylderau bwyta.<br><br>Mae grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid wedi bod yn ddefnyddiol i lawer o bobl – codi hyn fel rhan o'r adolygiad. | Gemma i ychwanegu at adborth y Gweithdy Adolygu Gwasanaeth |
| | |
| Diolchodd Bethan Sayed i bawb am ddod. | |